**Taflen wybodaeth**

# GWASANAETH DIWEDDARU'R DBS

Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel

## A allaf ddefnyddio tystysgrif DBS sydd gennyf o rôl arall?

**Nid yw tystysgrif DBS yn gludadwy yn awtomatig ond efallai y bydd hi'n bosibl ailddefnyddio tystysgrif DBS bresennol os yw'r ymgeisydd eisoes wedi cofrestru gyda gwasanaeth diweddaru'r DBS ac mae rolau dilynol ar yr un lefel a gyda'r un grŵp â'r dystysgrif wreiddiol.**
Unwaith y bydd unigolyn wedi cofrestru bydd y cofnod troseddol yn cael ei ddiweddaru'n electronig ac yn y dyfodol gall "cyflogwyr", gyda chaniatâd yr ymgeisydd, fynd ar-lein i wirio a fu unrhyw newidiadau i'r cofnod troseddol ers i'r dystysgrif wreiddiol gael ei hargraffu.
**Sylwer: bydd angen i gyflogwr weld y dystysgrif wreiddiol** o hyd gan y bydd y gwiriad diweddaru ond yn nodi os yw'r wybodaeth ar y dystysgrif wreiddiol wedi newid ai peidio. Nid yw'r gwiriad gwasanaeth diweddaru yn rhannu unrhyw fanylion cofnodion troseddol a oedd ar y dystysgrif wreiddiol gyda'r cyflogwr.

---

- **Os ydych EISOES WEDI COFRESTRU gyda'r gwasanaeth diweddaru:** ac eisiau defnyddio tystysgrif sy'n bodoli eisoes ar gyfer eich gwiriad neu adnewyddiad DBS diweddaraf, bydd angen i ni weld y dystysgrif wreiddiol, derbyn eich caniatâd ysgrifenedig a sicrhau bod gwiriwr y panel neu arweinydd eich eglwys wedi gwirio eich hunaniaeth. Cwblhewch y **ffurflen hon** sydd ar gael ar ein gwefan sy'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i gydymffurfio â chod ymddygiad y DBS.

  Nodwch: Mae yna eithriadau a allai ein hatal rhag defnyddio eich tystysgrif Gweler isod neu cysylltwch â ni

- **Os nad ydych eisoes wedi ymuno â'r gwasanaeth diweddaru:** hyd yn oed os oes gennych chi dystysgrifau eraill, bydd angen i chi wneud cais newydd am dystysgrif DBS ar gyfer pob sefydliad rydych chi'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda nhw. Er enghraifft, *os oes gennych DBS oherwydd eich rôl fel athro ysgol bydd angen i chi wneud caisarall am DBS drwy swyddfa'r Panel ar gyfer eich gwaith yn yr eglwys gyda phlant.*

- **Eithriadau:** *Yn anffodu,hyd yn oed ar ôl cofrestru gyda'r gwasanaeth diweddaru mae yna rhai eithriadau. Bob tro y byddwch yn ail-ddefnyddio'ch tystysgrif, dylai fod ar gyfer yr un gweithlu (plant a/neu oedolion) ac ar yr un lefel. Felly, er enghraifft, os ydych wedi cofrestru gyda'r gwasanaeth diweddaru gan ddefnyddio gwiriad am waith dan oruchwyliaeth gyda phlant ac yn yr eglwys rydych yn gweithio gydag oedolion neu heb oruchwyliaeth gyda phlant, byddai angen gwiriad pellach arnoch i gynnwys oedolion a rhestr gwahardd ar gyfer plant.*

- Os nad ydych eisoes wedi cofrestru**, mae'n werth ystyried ymuno y tro nesaf y byddwch yn derbyn tystysgrif DBS newydd.** Fel arfer, gall y gwasanaeth diweddaru arbed cryn dipyn o amser ac ymdrech a gall symleiddio'r broses adnewyddu. Bydd angen cyfeiriad e-bost arnoch a dylech gofrestru ar-lein gyda Y Gwasanaeth Diweddaru o fewn 30 diwrnod o dderbyn eich tystysgrif gan ddefnyddio rhif y tystysgrif. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i wirfoddolwyr ac mae'n costio £13 y flwyddyn i weithwyr cyflogedig. Byddwch yn derbyn e-bost adnewyddu blynyddol gan y DBS.

- Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth neu ewch i'n gwefan ni neu wefan y DBS.
  https://panel.cymru/images/ffurflen_caniatad_gwas_diweddaru_12-22.pdf

adolygwyd 09/23

☎ 01745 817584 post@panel.cymru https://panel.cymru 1 Vale Parc Colomendy Industrial Estate, Dinbych LL16 5TA